Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Ymchwiliad dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

**Swyddfa'r Cabinet**

Adroddiad ac argymhellion Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddir o dan adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cyfeirnod YCI002

Dyddiad cyhoeddi: 11 Chwefror 2026

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, ac adolygu ac ymchwilio cydymffurfiaeth â'r Mesur a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion cyswllt:


- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygymraeg.org
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyd-destun | 1 |
| 2 | Sail yr ymchwiliad | 2 |
| 3 | Yr ymchwiliad | 4 |
| 4 | Y dystiolaeth | 5 |
| 5 | Casgliadau | 8 |
| 6 | Argymhellion | 10 |

# Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad ymchwiliad hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn unol ag adran 19 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) yn sgil trosglwyddo swyddogaethau perthnasol o dan y Ddeddf i'r Comisiynydd drwy gyfres o offerynnau statudol.

## Rhan II Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

- Cydymffurfio â chynlluniau – Ymchwiliadau

  Cynhelir ymchwiliad i'r posibilrwydd o fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith o dan adran 17 y Ddeddf:

  > *17. – (1) Lle ymddengys i'r Bwrdd[1], boed yn sgil cwyn a wnaed iddo o dan adran 18 isod neu fel arall, y gall corff cyhoeddus fod wedi methu â chyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd, caiff y Bwrdd gynnal ymchwiliad er mwyn gweld a fu methiant.*
  >
  > *(2) Bydd y drefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan yr adran hon yn gyfryw ac y cred y Bwrdd ei bod yn briodol o dan amgylchiadau'r achos, ac yn arbennig gellir cynnal ymchwiliad yn breifat.*

- Cydymffurfio â chynlluniau – Cwynion am fethu â chydymffurfio

  Mae adran 18 y Ddeddf yn gymwys lle gyflwynir cwyn gan berson am fethiant gan gorff cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith:

  > *18. – (1) Mae'r adran hon yn gymwys –*
  >
  > *(a) lle cyflwynir cwyn ysgrifenedig i'r Bwrdd gan berson sy'n honni bod methiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni cynllun a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi effeithio'n uniongyrchol arno,*
  >
  > *(b) lle gwneir y gwyn o fewn cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar y diwrnod pryd y gwybu'r achwynydd gyntaf am y materion a honnir yn y gwyn, ac*
  >
  > *(c) lle y mae'r Bwrdd yn fodlon fod yr achwynydd wedi dod â'r mater y cwynir amdano i sylw'r corff cyhoeddus o dan sylw a bod y corff hwnnw wedi cael cyfle rhesymol i'w ystyried ac i ymateb.*
  >
  > *(2) Lle y mae'r adran hon yn gymwys, bydd y Bwrdd naill ai'n ymchwilio i'r gwyn honno o dan adran 17 uchod neu'n anfon datganiad o'i resymau dros beidio â gwneud at yr achwynydd.*

---

[1] Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth, 2012 a throsglwyddwyd y pŵer i ymchwilio i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill, 2012. Mae unrhyw gyfeiriad at y Bwrdd yn y rhagair hwn yn gyfystyr â chyfeiriad at y Comisiynydd.

## Cydymffurfio â chynlluniau – Adroddiadau ar ymchwiliadau

Llunnir adroddiad o dan adran 19 y Ddeddf ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad:

> *19. – (1) Lle bydd y Bwrdd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 17 uchod bydd yn anfon adroddiad am ganlyniadau'r ymchwiliad i'r corff cyhoeddus o dan sylw, at yr Ysgrifennydd Gwladol[2] ac, lle cynhelir yr ymchwiliad yn sgil cwyn a wnaed o dan adran 18 uchod, at yr achwynydd.*
>
> *(2) Lle cred y Bwrdd y byddai'n briodol i'r adroddiad ar ganlyniadau ymchwiliad gael ei gyhoeddi, naill ai ar ffurf adroddiad a wneir o dan is adran (1) uchod neu ar ryw ffurf arall, caiff y Bwrdd drefnu ei gyhoeddi yn y cyfryw fodd ag y gwêl yn dda.*
>
> *(3) Lle bydd y Bwrdd ar ôl gorffen ymchwiliad, yn fodlon bod y corff cyhoeddus dan sylw wedi methu â chyflawni'r cynllun, caiff y Bwrdd gynnwys yn ei adroddiad argymhellion ynghylch camau i'w cymryd gan y corff cyhoeddus er mwyn cywiro'r methiant neu er mwyn osgoi methiant yn y dyfodol.*

## Cydymffurfio â chynlluniau – Cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Os yw'r Comisiynydd o'r farn, yn dilyn llunio adroddiad, bod corff cyhoeddus wedi methu â gweithredu camau a argymhellwyd ganddi, caiff gyfeirio'r mater at y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg:

> *20. – (1) Os ymddengys ar unrhyw adeg i'r Bwrdd fod corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd mewn adroddiad o dan adran 19 uchod, caiff y Bwrdd gyfeirio'r mater at yr Ysgrifennydd Gwladol.*
>
> *(2) Yn achos cyfeiriad o dan yr adran hon os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd a chan y corff cyhoeddus o dan sylw, fod y corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau a argymhellwyd yn yr adroddiad, caiff roi'r cyfryw gyfarwyddiadau i'r corff cyhoeddus ag y cred y bo'n briodol.*
>
> *(3) Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddiadau a roir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan isadran (2) uchod, os gwneir cais ganddo, drwy gyfrwng mandamws.*

---

[2] Yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, anfonir adroddiadau o dan adran 19 y Ddeddf at y Gweinidog o fewn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

# 1 Cyd-destun

1.1 Mae gan Swyddfa'r Cabinet gynllun iaith Gymraeg a baratowyd o dan adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf). Cafodd y cynllun iaith ei gymeradwyo ar 12 Medi 2019.

1.2 Mae'r cynllun iaith yn datgan fod Swyddfa'r Cabinet wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd Swyddfa'r Cabinet yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

1.3 Prif amcan yr adroddiad hwn yw dod i gasgliadau, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, ynglŷn â chydymffurfiaeth Swyddfa'r Cabinet â chymalau penodol o'i gynllun iaith. Nid yw'r adroddiad yn dod i gasgliadau ynghylch perfformiad cyffredinol Swyddfa'r Cabinet wrth gyflawni ei gynllun iaith.

1.4 Dyma'r ymchwiliad cyntaf i mi ei gynnal o dan adran 17 y Ddeddf yn achos Swyddfa'r Cabinet. Dymunaf ddiolch i Swyddfa'r Cabinet am ei gydweithrediad yn ystod yr ymchwiliad.

# 2 Sail yr ymchwiliad

2.1 Agorwyd yr ymchwiliad hwn ar fenter y Comisiynydd. Derbyniodd y Comisiynydd ddau ymholiad gan aelodau'r cyhoedd oedd yn codi amheuaeth o gydymffurfiaeth Swyddfa'r Cabinet gyda'i gynllun iaith.

2.2 Roedd yr ymholiad yn ymwneud â darllediad cell uniaith Saesneg.

<u>Y Cefndir</u>

2.3 Bu i Swyddfa'r Cabinet gynnal prawf argyfwng drwy ddarllediad cell ar draws y DU am y tro cyntaf yn 2023. Bryd hynny roedd y darllediad cell ar gyfer ffonau symudol yng Nghymru yn ddwyieithog. Roedd problem gyda pheth o'r neges yn Gymraeg gan fod un gair wedi ei awtogywiro yn anghywir. Arweiniodd hyn at dipyn o sylw negyddol yn y wasg.

2.4 Cysylltodd swyddogion o Swyddfa'r Cabinet gyda'r Comisiynydd ar 7 Gorffennaf 2025 er mwyn rhoi cefndir am y neges argyfwng prawf nesaf, oedd i ddigwydd ym mis Medi 2025. Roedd trafodaethau wedi bod eisoes rhwng Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru.

2.5 Cadarnhaodd Swyddfa'r Cabinet bod problem dechnegol wedi ei hadnabod ym mhrawf 2023 lle nad oedd rhai ffonau symudol wedi derbyn y neges argyfwng. Nodwyd mai'r rheswm posib oedd bod rhaid gyrru neges uniaith Saesneg i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yna neges ddwyieithog i Gymru tua munud a hanner wedyn.

2.6 Y cynnig gan Swyddfa'r Cabinet felly ar gyfer y neges ym mis Medi 2025 oedd gyrru un neges uniaith Saesneg, gyda dolen am ragor o wybodaeth ac i weld y neges yn Gymraeg.

2.7 Anfonodd y Dirprwy Gomisiynydd ymateb ar 7 Gorffennaf 2025 yn gofyn am wybodaeth bellach am y problemau technegol. Tynnodd sylw Swyddfa'r Cabinet at yr ymrwymiad clir yng nghynllun iaith y sefydliad i gyfathrebu yn ddwyieithog wrth hyrwyddo digwyddiadau yng Nghymru neu'n cyfathrebu gyda nifer fawr o bobl yng Nghymru. Gofynnodd am gyfarfod er mwyn trafod y mater ymhellach.

2.8 Cynhaliwyd cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2025 gyda swyddogion Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd lle cadarnhawyd eto y gofynion o dan y cynllun iaith Gymraeg. Nodwyd yn y cyfarfod bod gwledydd eraill wedi mabwysiadu dulliau cyfathrebu dwyieithog ar gyfer negeseuon argyfwng, gan ddefnyddio technoleg a systemau amrywiol er mwyn sicrhau cyfathrebu cynhwysol.

2.9 Derbyniwyd e-bost pellach gan Swyddfa'r Cabinet ar 22 Gorffennaf 2025 yn cadarnhau'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod. Cadarnhawyd hefyd mai'r bwriad oedd parhau gyda'r neges uniaith Saesneg gyda dolen i ragor o wybodaeth neu i weld y neges yn Gymraeg.

2.10 Anfonodd y Dirprwy Gomisiynydd e-bost pellach ar 29 Gorffennaf 2025 gan bwysleisio na allai'r Comisiynydd gytuno â'r dull a awgrymwyd, gan y byddai'r drefn honno'n gosod baich ychwanegol ar siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wybodaeth hanfodol.

2.11 Anfonwyd y neges argyfwng ar 7 Medi 2025 am 3yp, yn Saesneg, yn unol a'r dull a nodir yn 2.6 uchod.

# 3 Yr ymchwiliad

3.1 Yn dilyn danfon y neges argyfwng ar 7 Medi, penderfynwyd arfer ein pwerau o dan adran 17 y Ddeddf i gynnal ymchwiliad i ganfod a fu methiant gan Swyddfa’r Cabinet i gyflawni’r cynllun iaith.

3.2 Ar 25 Medi 2025, anfonwyd llythyr at Swyddfa’r Cabinet yn egluro testun a threfn yr ymchwiliad ac yn gofyn cwestiynau ar gyfer cywain gwybodaeth. Eglurwyd y byddai’r ymchwiliad yn ystyried cyflawniad y cymalau canlynol o’r cynllun iaith:

> ***Gohebiaeth Ysgrifenedig***
>
> *7. Bydd Swyddfa’r Cabinet yn ysgrifennu’n ddwyieithog:*
>
> - *Wrth ddarparu gwahoddiadau a hysbysiadau sy’n rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru*
> - *Wrth gynhyrchu papurau ac adroddiadau yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru*
> - *Wrth gynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru*
> - *Pan anfonir yr un ohebiaeth at nifer fawr o bobl yng Nghymru*

3.3 Nodwyd y byddai’r ymchwiliad yn cael ei gynnal yn breifat gan dîm Gosod ac Ymchwilio y Comisiynydd, ac y byddai’n dilyn y camau canlynol:

1. Derbyn gwybodaeth a thystiolaeth gan Swyddfa’r Cabinet erbyn 23 Hydref 2025.
2. Cynnal dadansoddiad pen desg o’r wybodaeth ac ystyried yr angen i gasglu gwybodaeth bellach, er enghraifft trwy gyfarfod gyda swyddogion Swyddfa’r Cabinet
3. Paratoi adroddiad drafft ar ganfyddiadau’r ymchwiliad a rhoi cyfle i Swyddfa’r Cabinet wirio ei ffeithiau.
4. Anfon copi o’r adroddiad terfynol at Swyddfa’r Cabinet a’r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.
5. Cyhoeddi’r adroddiad terfynol.

Mae’r adroddiad hwn yn ystyried cydymffurfiaeth Swyddfa’r Cabinet gyda chymalau penodol o’i gynllun iaith. Mae wedi’i seilio ar wybodaeth a thystiolaeth a dderbyniwyd gan Swyddfa’r Cabinet mewn llythyr dyddiedig 23 Hydref 2025 ynghyd â gohebu blaenorol rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Swyddfa’r Cabinet.

# 4 Y dystiolaeth

## Ystyriaeth 1:

Roedd amheuaeth nad oedd Swyddfa'r Cabinet wedi cyflawni'r cymalau canlynol o'i gynllun iaith:

***Gohebiaeth Ysgrifenedig***

*7. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn ysgrifennu'n ddwyieithog:*

- *Wrth ddarparu gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru*
- *Wrth gynhyrchu papurau ac adroddiadau yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru*
- *Wrth gynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru*
- *Pan anfonir yr un ohebiaeth at nifer fawr o bobl yng Nghymru*

4.1 Er mwyn cydymffurfio â'r cymalau uchod fel y nodir yn y cynllun iaith, rhaid i Swyddfa'r Cabinet anfon gohebiaeth yn ddwyieithog at bobl yng Nghymru pan anfonir yr un ohebiaeth ar nifer fawr o bobl.

4.2 Derbyniodd trigolion Cymru neges brawf argyfwng, ar ffurf gohebiaeth, yn uniaith Saesneg ar 7 Medi 2025 am 3 o'r gloch y prynhawn.

4.3 Anfonwyd llythyr at Swyddfa'r Cabinet ar 25 Medi 2025 yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth ynghylch yr amheuaeth yn eu herbyn.

4.4 Cafwyd ymateb ar ffurf e-bost ar 23 Hydref 2025. Nododd yr ymateb fod problemau wedi codi gyda'r prawf cyntaf wrth anfon dwy neges ar wahân: methodd un rhwydwaith (Three UK) â chyflwyno'r rhybudd, ac roedd gwall bach yn y fersiwn Gymraeg a anfonwyd ar y rhwydweithiau eraill. Eglurodd mai problem dechnegol oedd y brif broblem gan nad yw'r systemau'n gallu delio â negeseuon lluosog ar yr un pryd.

4.5 Yn dilyn y mater hwn, dywedodd y Swyddfa'r Cabinet y cynhaliodd gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr uwch o'r rhwydwaith Three i drafod y mater, a chafwyd sicrwydd na fyddai hyn yn broblem eto yn y dyfodol.

4.6 Ar gyfer profion yn y dyfodol, dywedodd mai'r cyngor gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth oedd anfon un neges sengl neu adael bwlch mawr rhwng negeseuon. Eglurodd bod yr ail brawf yn 2025 yn fwy llwyddiannus, gyda thua 95% o ddyfeisiau'n derbyn y rhybudd o'i gymharu â 80% yn 2023.

4.7 Yn ei dystiolaeth, dywedodd mai heriau cyfathrebu a'r angen am ymgyrch syml a chyson oedd y rheswm dros beidio ag anfon neges ar wahân i Gymru.






4.8 Roedd Swyddfa’r Cabinet yn bryderus am gywirdeb rhybuddion i bobl ger ffin Cymru, gan fod mastiau cell yn gallu achosi i rybuddion groesi ffiniau rhanbarthol. Eglurodd y gallai anfon dwy neges ar wahân (gweler uchod) fod wedi arwain at ddyblygu i’r rhai yn Lloegr ger Cymru. I osgoi hyn, cynigiodd Swyddfa’r Cabinet un neges ar draws y DU gyda’r elfen Gymraeg ynddi a dolen i GOV.UK ar gyfer y fersiwn Gymraeg lawn, fel a ganlyn:

Visit gov.uk/alerts for more information or to view this message in Welsh.

Ewch i gov.uk/alerts am ragor o wybodaeth neu i weld y neges hon yn y Gymraeg.

**Gwybodaeth Ychwanegol wedi ei chynnwys ar gov.uk/alerts**

*Dyma brawf o Rybuddion Brys, gwasanaeth llywodraeth y DU a fydd yn eich rhybuddio os oes argyfwng sy'n peryglu bywyd gerllaw. Does dim angen i chi wneud dim. Mewn argyfwng go iawn, dilynwch y cyfarwyddiadau yn y rhybudd i'ch cadw chi ac eraill yn ddiogel. Dewch o hyd i gyngor syml ac effeithiol ar sut i baratoi ar gyfer argyfyngau yn gov.uk/prepare . Ewch i gov.uk/alerts am ragor o wybodaeth neu i weld y neges hon yn y Gymraeg.*

*Sent by the UK government at 3:00pm on Sunday 7 September 2025.*

4.9 Ychwanegodd mai llwyddiant yr ymgyrch gyfathrebu oedd symlrwydd y neges, ac na fyddai’r un lefel o ymgysylltiad wedi ei gyflawni heb hynny. Honnai bod y dull hwn yn lleihau’r risg dechnegol ac yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad i’r neges lawn.

4.10 Dywedodd Swyddfa’r Cabinet ei fod wedi bwriadu cyflwyno rhybuddion amlieithog yn seiliedig ar osodiadau iaith y ddyfais, ond bod costau newidiadau contractio yn sylweddol uwch, ac felly penderfynwyd peidio â’u gweithredu. Eglurodd fod rhybuddion presennol wedi’u cyfyngu i 500 nod ar gyfer gwelededd llawn, gyda’r uchafswm absoliwt o 1,395 nod, er y gall negeseuon hirach gael eu torri. Pwysleisiodd fod cadw negeseuon yn gryno yn hanfodol ar gyfer hygyrchedd a eglurder.

4.11 Ychwanegodd, bod yr angen i ddarparu rhybuddion aml-ieithog wedi’i gynnwys yn y datganiad o ofynion (SOR) y byddant yn gorfod ei weithredu o dan gontractau newydd sy’n dechrau ym mis Ebrill 2026.

4.12 Nododd fod y Bwrdd Goruchwylio Rhybuddion Argyfwng wedi cymeradwyo’r negeseuon prawf, sy’n cynnwys Llywodraeth Cymru, serch hynny penderfyniad Swyddfa’r Cabinet oedd anfon y neges yn uniaith Saesneg. Eglurodd bod penderfyniadau ar ddefnyddio iaith mewn argyfyngau yn cael eu gwneud fesul achos:

dwyieithog os yn ymarferol, neu Saesneg yn unig os oes angen cyfarwyddiadau manwl. Yn ystod Storm Darragh ym mis Rhagfyr 2024, dywedodd iddo anfon neges dwyieithog o fewn y terfyn nodau, ac na chafwyd unrhyw gwynion.

# 5 Casgliadau

5.1 Daw'r adroddiad hwn i farn ynglŷn â chydymffurfiaeth Swyddfa'r Cabinet â'i gynllun iaith. Yn wyneb y dystiolaeth sydd ar gael, cesglir fod Swyddfa'r Cabinet wedi methu â chydymffurfio a chymal 7 o'r cynllun iaith.

### Casgliad 1: Gohebiaeth Ysgrifenedig

> Roedd amheuaeth nad oedd Swyddfa'r Cabinet wedi cyflawni'r cymalau canlynol o'i gynllun iaith:
>
> ***Gohebiaeth Ysgrifenedig***
>
> *7. Bydd Swyddfa'r Cabinet yn ysgrifennu'n ddwyieithog:*
>
> - *Wrth ddarparu gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru*
> - *Wrth gynhyrchu papurau ac adroddiadau yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru*
> - *Wrth gynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru*
> - *Pan anfonir yr un ohebiaeth at nifer fawr o bobl yng Nghymru*

5.2 Ni anfonwyd y neges prawf argyfwng yn ddwyieithog. Mae hyn yn groes i gynnwys cymalau'r cynllun iaith sy'n nodi'n glir:

*Bydd Swyddfa'r Cabinet yn ysgrifennu'n ddwyieithog:*

- *Wrth ddarparu gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru*
- *Pan anfonir yr un ohebiaeth at nifer fawr o bobl yng Nghymru*

5.3 Yn ei dystiolaeth, nododd Swyddfa'r Cabinet mai "*heriau cyfathrebu a'r angen am ymgyrch syml a chyson"* oedd y rheswm dros beidio ag anfon neges ar wahân i Gymru.

5.4 Dywedodd ei fod yn awyddus bod pobl yn "*cael mynediad i'r neges lawn*" ac y byddai anfon neges ddwyieithog i Gymru, a Saesneg i wledydd eraill y DU yn ddryslyd i'r rhai oedd yn byw ar y ffin.

5.5 Nid yw'r ymateb yn mynd i'r afael â'r trefniadau na'r systemau a arweiniodd at y methiant yn yr achos hwn. Er bod y methiant yn cael ei gydnabod, nid yw Swyddfa'r Cabinet yn nodi unrhyw gamau i sicrhau na fydd sefyllfa debyg yn codi eto. Nodwyd bod penderfyniadau ar ddefnyddio iaith mewn argyfyngau yn cael eu gwneud fesul achos, sy'n amlygu'r risg y gallai methiant i gydymffurfio â'r cymal hwn ddigwydd eto.

5.6 Er gwaethaf y trafodaethau rhwng swyddogion y Comisiynydd a swyddogion Swyddfa'r Cabinet, a'r ymdrechion i dynnu sylw at y ffaith nad oedd anfon y neges

brawf argyfwng yn uniaith Saesneg yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith, fe anfonwyd y neges yn Saesneg.

5.7 Ymddengys felly bod y Swyddfa Cabinet yn ymwybodol eu bod yn gweithredu yn groes i'w cynllun iaith wrth anfon y neges ar 7 Medi 2025.

> Ar sail yr uchod rwyf o'r farn bod Swyddfa'r Cabinet wedi methu â chyflawni cymal 7 o'i gynllun iaith.

# 6 Argymhellion

6.1 Ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad hwn, rwyf o'r farn y dylai Swyddfa'r Cabinet weithredu'n unol â'r argymhellion canlynol a wneir dan adran 19 y Ddeddf:

### Argymhelliad 1

Dylai Swyddfa'r Cabinet gynnwys yr angen i ddarparu rhybuddion aml-ieithog, fel y nodwyd ganddo, yn y datganiad o ofynion (SOR) y byddant yn ei weithredu o dan gontractau newydd o fis Ebrill 2026.

### Argymhelliad 2

Dylai Swyddfa'r Cabinet gyflwyno cynllun manwl ar gyfer cyflawni'r gwaith o alluogi anfon negeseuon testun argyfwng yn ddwyieithog at bobl yng Nghymru.

### Argymhelliad 3

Dylai Swyddfa'r Cabinet ystyried y Gymraeg bob amser wrth anfon gohebiaeth:

- at nifer o bobl yng Nghymru
- wrth ddarparu gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd

*Amserlen: Dylid cyflwyno adroddiad cryno ar gyflawniad yr argymhellion hyn o fewn 6 mis.*